| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Mai 2018** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu/ Cydlynydd Craffu** |
| **Cyflwynir gan:** | **Y Cynghorydd Hugh Irving (Cadeirydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu 2017/18)** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu y Cyngor 2017/18** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu y Cyngor ar gyfer 2017/18.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cyflwyno adroddiad blynyddol am weithgareddau'r Pwyllgorau Craffu yn 2017/18 i'r Cyngor.

2.2 Cydymffurfio ag Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi fod yn rhaid i Bwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn ar eu gwaith a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith i'r dyfodol a dulliau gwaith diwygiedig os yn briodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2017/18 ac yn cyflwyno sylwadau yn unol â hynny.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn nodi y bydd pwyllgorau craffy yr Awdurdod yn adrodd yn flynyddol ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor Sir.

4.2 Adroddiad Blynyddol eleni yw adroddiad cyntaf y Pwyllgorau Craffu ar eu gweithgareddau yn ystod tymor cyfredol y Cyngor. Mae'r adroddiad yn rhoi cyflwyniad byr i'r darllenwr ynghylch beth yw craffu a sut mae craffu'n gweithredu, ochr yn ochr â throsolwg o'r gwaith y mae pwyllgorau a'u haelodau wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall preswylwyr gyfranogi a chyfrannu at y broses craffu. Mae modd gweld copi o'r adroddiad drafft yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Ar ôl cael cymeradwyaeth, caiff yr adroddiad ei gyfieithu a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

4.3 Dros y blynyddoedd, mae'r Adroddiad Blynyddol wedi canolbwyntio ar waith Craffu i ddarparu blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol. Wrth sefydlu Cyngor newydd ym Mai 2017, mae'r flwyddyn 2017/18 wedi bod yn gyfnod o

sefydlu a dysgu. Gan fod y Cyngor nawr wedi cytuno ar ei flaenoriaethau corfforaethol newydd, ac wedi mabwysiadu ei Gynllun Corfforaethol am y cyfnod 2017-2022, bydd Craffu'n dechrau ei waith o fonitro ei ddarpariaeth yn rheolaidd.

4.4 Yn ystod 2017/18, mae craffu wedi cynnal cymysgedd o waith craffu cyn gwneud penderfyniadau, ac ar ôl eu gwneud, gyda phwyllgorau unigol yn canolbwyntio eu gwaith ar nifer o feysydd penodol, fel perfformiad corfforaethol, trefniadau partneriaeth, a budd cymunedol ac economaidd. Mae modd dod o hyd i'r pynciau sydd wedi'u harchwilio gan Graffu yn yr adrannau ar y pwyllgorau unigol yn yr adroddiad sy'n amgaeedig. Drwy gydol y flwyddyn, mae Craffu wedi cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori a gwahoddwyd nifer o sefydliadau allanol neu bartner i gyfarfod gyda phwyllgorau i drafod meysydd o ddiddordeb neu bryder cyffredin.

4.5 Mae ymgysylltu â'r cyhoedd ac annog preswylwyr i ryngweithio â Chraffu'n parhau i fod yn her i Sir Ddinbych, fel mannau eraill yng Nghymru. Mae'n agwedd ar ei waith y bydd Craffu'n parhau i geisio â'i wella yn ystod y flwyddyn i ddod. Ar gyfer y diben hwn, fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys ffurflen sy'n galluogi'r cyhoedd i awgrymu meysydd neu wasanaethau i'w hystyried gan graffu.

4.6 Wrth ystyried cais am fater i fod yn destun craffu, boed yn gais gan aelod etholedig, swyddog neu gan y cyhoedd yn gyffredinol, mae'r meini prawf canlynol yn berthnasol i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu wrth iddynt benderfynu a yw'r eitemau angen bod yn destun craffu:

- a yw'n fater o ddiddordeb i'r cyhoedd?
- oes gan Graffu'r gallu i ddylanwadu neu newid pethau?
- ydi'r gwaith yn gysylltiedig â gwasanaeth sy'n tanberfformio?
- ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o breswylwyr neu ardal ddaearyddol fawr?
- oes unrhyw un arall yn edrych arno?

4.7 Yn 2014, fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru astudiaeth genedlaethol ar graffu yng Nghymru. Daeth yr astudiaeth hon, o'r enw *Craffu Da? Cwestiwn Da!* i'r casgliad bod angen cryfhau'r rôl craffu ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Mae hefyd yn pwysleisio manteision defnyddio craffu fel modd ar gyfer ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gwneud penderfyniadau gwell sy'n arwain at ganlyniadau gwell i breswylwyr. Yn ystod 2017/18, fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru gynnal astudiaeth genedlaethol bellach ar Graffu. Prif ffocws yr astudiaeth hon, o'r enw *Parod at y Dyfodol,* oedd archwilio sut roedd Craffu wedi ymateb i'r argymhellion yn adroddiad *Craffu Da? Cwestiwn Da!* a sut roedd wedi addasu i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn cynnwys y dyletswyddau y gosodwyd arno mewn perthynas â chraffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym yn dal i aros am gasgliadau'r adolygiad hwn.

4.8 O ganlyniad i adroddiad cenedlaethol cychwynnol Swyddfa Archwilio Cymru, mae cyfres o '*Ganlyniadau a Nodweddion Craffu Effeithiol*' wedi'u datblygu a'u mabwysiadu ar sail Cymru gyfan. Nod y nodweddion hyn yw cefnogi'r broses o gyflwyno canlyniadau gwell, drwy wneud penderfyniadau gwell, yn seiliedig ar ymgysylltiad gwell â phreswylwyr a rhanddeiliaid. Tuag at ddiwedd blwyddyn ddinesig 2017/18, fe wnaeth Craffu wneud ymarfer gwerthuso i asesu ei

effeithiolrwydd yn erbyn y nodweddion hyn, ac i nodi meysydd sydd angen eu cryfhau. Anfonwyd holiaduron at bob cynghorydd sir, aelodau cyfetholedig ac i uwch swyddogion sy'n mynychu'n rheolaidd ac yn rhyngweithio â Chraffu. Mae crynodeb o brif gasgliadau'r gwerthusiad yn yr Adroddiad Blynyddol. Bydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'n dadansoddi canlyniadau'r gwerthusiad, ynghyd ag awgrymiadau ynghylch sut y gellir cryfhau Craffu, a chanfyddiadau adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod rhan gyntaf 2018/19, gyda'r bwriad i nodi camau gwella a'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Craffu.

4.9 Yn ystod 2018/19, bydd gwaith yn dechrau' o ddifrif ar fonitro darpariaeth y Cyngor o'i flaenoriaethau corfforaethol newydd, a'i Gynllun Corfforaethol. Bydd gwaith y 'Grŵp Tasg a Gorffen Gofal Cymdeithasol i Oedolion Mewnol yn y Dyfodol' yn parhau, gyda'i gynigion ynghylch sut i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad cyn gwneud argymhellion i'r Cabinet. Bydd Craffu hefyd yn parhau i herio casgliadau'r Asesiadau o Effaith ar Les yn gadarn, wrth ddatblygu polisïau, i sicrhau bod y cynigion yn gynaliadwy ac yn cefnogi darpariaeth nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4.10 Mae gwaith rhagarweiniol wedi'i wneud yn ystod 2017/18 ar fuddion posibl sefydlu trefniadau pwyllgor craffu ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, at y diben o gyflawni dyletswyddau Craffu mewn perthynas â chraffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dylid dod â'r gwaith hwn i ben yn ystod 2018/19.

4.11 Bydd pwyllgorau craffu'n parhau i wahodd sefydliadau partner a chyrff sector cyhoeddus eraill i'w cyfarfod yn ystod y flwyddyn i ddod, i archwilio sut y gellir gwella gwasanaethau a chanlyniadau i breswylwyr drwy bartneriaeth effeithiol. Ym Mai 2018, ystyrir yr effaith gychwynnol ar gyflwyno Credyd Cynhwysol i breswylwyr ac ar wasanaethau'r cyngor gan y Pwyllgor Craffu ar Gymunedau. Mae nifer o sefydliadau partner wedi'u gwahodd i ddod i'r cyfarfod hwn. Yn ystod yr haf, bydd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru'n dod i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad i drafod cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau priffyrdd, tra bydd y Pwyllgor Craffu ar Bartneriaethau'n parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod materion iechyd a gofal cymdeithasol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd craffu effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau, dymuniadau trigolion ac o fewn cyllideb.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o ddosbarthiad adroddiadau pwyllgorau rheolaidd i gynghorwyr sir a derbynwyr eraill, felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm â'i gyhoeddi. Ar ôl ei gymeradwyo a'i gyfieithu bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gael ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor.

6.2 Telir unrhyw gostau mewn perthynas â gwaith y grwpiau tasg a gorffen o fewn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

Nid yw Asesiad o Effaith ar Les yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn gan nad ydym yn gofyn am unrhyw benderfyniad na newid polisi. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i hysbysu cynghorwyr a thrigolion am waith y Pwyllgorau Craffu yn ystod y deuddeg mis blaenorol ac fel modd o amlinellu meysydd gwaith posibl yn y dyfodol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Chraffu ac eraill?**

Mae aelodau'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi bod yn ymwneud â drafftio'r Adroddiad Blynyddol ac ymgynghorwyd â nhw ar ei gynnwys.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Fe y soniwyd ym mharagraff 6 uchod bydd unrhyw gostau yn ymwneud â chynhyrchu'r Adroddiad yn cael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol, fel y bydd unrhyw gostau yn deillio o sefydlu grwpiau tasg a gorffen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau wedi eu nodi mewn perthynas ag ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi fod yn rhaid i Bwyllgorau Craffu y Cyngor adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn ar eu gwaith a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith i'r dyfodol a dulliau gwaith diwygiedig os yn briodol.

**Swyddog Cyswllt:**

Cydlynydd Craffu

Ffôn: 01824 712554

rhian.evans@sirddinbych.gov.uk